RR2 - Hyrwyddo Adfywiad Trefol a Gwledig

(Fersiwn Mawrth 1999)

Cynnwys Tudalen

Am y cyhoeddiad hwn 2

Adfywiad trefol a gwledig 2

Profion ar gyfer statws elusennol 3

Gwybodaeth bellach 4

Atodiad - Arweiniad ar statws elusennol cyrff sy'n hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig 5

- Sefydliadau adfywiad elusennol 5
- Cyrff rheng flaen a chyrff cydlynu 5
- Hyd a lled gweithgareddau 6
- Budd cyhoeddus a phreifat 6
- Meini prawf i bennu budd cyhoeddus yn erbyn budd preifat 6
- Yr effaith ar y gymuned 7
- Amddifadedd cymdeithasol ac economaidd 8
- Ardal fudd 8
- Dosbarth sy'n cael budd 9
- Amcanion 9
- Amcanion enghreifftiol 9

Am y cyhoeddiad hwn

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn crynhoi sut y mae'r Comisiwn Elusennau yn penderfynu i ba raddau y mae hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig yn elusennol. Mae hyn wedi cael ei ystyried fel rhan o'n Hadolygiad o'r Gofrestr Elusennau. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi arwain at baratoi'r arweiniad manwl, sydd i'w weld yn yr Atodiad.

Adfywiad trefol a gwledig

2. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Comisiynwyr Elusennau wedi cydnabod bod hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig er budd cyhoeddus mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn ddiben elusennol ynddo'i hun. Gall sefydliadau adfywiad elusennol gyflawni hyn trwy gynnal neu wella'r isadeiledd ffisegol, cymdeithasol ac economaidd a thrwy gynorthwyo pobl sydd dan anfantais oherwydd eu hamgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Nid yw'r arweiniad hwn yn cynnwys sefydliadau a ffurfiwyd at y diben o ddatblygiad cymunedol yn unig.

3. Gall sefydliadau adfywiad wneud rhai, neu bob un, o'r canlynol:

- darparu cymorth ariannol neu gymorth arall i bobl sy'n dlawd;
- darparu tai i'r rheiny sydd mewn angen a chynorthwyo i wella safonau tai yn gyffredinol yn y rhannau hynny o ardal amddifadedd lle mae tai gwael yn broblem;
- cynorthwyo pobl ddi-waith i ddod o hyd i waith;
- darparu addysg, hyfforddiant a chyfleoedd ail-hyfforddi a phrofiad gwaith, yn enwedig i bobl ddi-waith;
- darparu cymorth ariannol neu dechnegol neu gyngor i fusnesau newydd neu fusnesau sy'n bodoli eisoes lle y byddai'n arwain at gyfleoedd hyfforddi a gwaith i bobl ddi-waith;
- darparu tir ac adeiladau ar delerau ffafriol i fusnesau er mwyn creu cyfleoedd hyfforddi a gwaith i bobl ddi-waith;
- darparu, cynnal a gwella ffyrdd a mynediad i brif lwybrau cludiant;
- darparu, cynnal a gwella cyfleusterau adloniadol;
- cadw adeiladau yn yr ardal sydd o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol;
- darparu amwynderau cyhoeddus.

Wrth gwrs, gallant ymgymryd â gweithgareddau eraill hefyd.

Profion ar gyfer statws elusennol

4. Yn fras, er mwyn bod yn elusennol fel rheol bydd angen i sefydliad adfywiad ddangos:

- bod ganddo feini prawf effeithiol i bennu a oes angen adfywio ardal neu beidio;
- bydd yn ymgymryd ag o leiaf 3 neu 4 o'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff 7 uchod, a bod y gweithgareddau hyn yn cwmpasu ystod eang o waith adfywio;
- bod y budd cyhoeddus o'i weithgareddau yn fwy nag unrhyw fudd preifat a all unigolion neu gwmnïau ei gael. Mae hyn yn golygu bod rhaid iddo gael meini prawf clir er mwyn pennu hyn; a
- bod ei amcanion yn elusennol yn unig.

Mae'r atodiad yn disgrifio hyn yn fwy manwl.

5. Gallai amcanion perthnasol gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

"Hyrwyddo er budd cyhoeddus adfywiad trefol neu wledig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd (ac yn enwedig [nodi ardal] trwy bob un neu unrhyw un o'r dulliau canlynol:

(a) rhoi cymorth i'r tlodion mewn ffyrdd y tybir eu bod yn addas;

(b) rhoi cymorth i'r di-waith mewn ffyrdd y tybir eu bod yn addas, gan gynnwys cymorth i ddod o hyd i waith;

(c) hybu addysg, hyfforddiant neu ailhyfforddiant, yn enwedig ymhlith pobl ddi-waith, a chynnig profiad gwaith i bobl ddi-waith;

(ch) darparu cymorth ariannol, cymorth technegol, cyngor busnes neu wasanaeth ymgynghori er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddi a gwaith i bobl ddi-waith mewn achosion o angen ariannol neu angen elusennol arall trwy roi cymorth:

(i) wrth sefydlu eu busnes eu hunain, neu

(ii) i fusnesau sy'n bodoli eisoes;

(d) creu cyfleoedd hyfforddi a gwaith trwy ddarparu lle gwaith, adeiladau a/neu dir i'w defnyddio ar delerau ffafriol;

(dd) darparu tai i'r rheiny sydd mewn amodau o angen a gwella tai yn y sector cyhoeddus neu dai y mae elusennau yn berchen arnynt ar yr amod na fydd pŵer o'r fath yn ymestyn i ryddhau unrhyw awdurdodau lleol neu gyrff eraill o'r ddyletswydd statudol i ddarparu neu wella tai;

(e) cynnal, gwella neu ddarparu amwynderau cyhoeddus;

(f) cadw adeiladau neu safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol;

(ff) darparu neu roi cymorth wrth ddarparu cyfleusterau adloniadol i'r cyhoedd a/neu'r rheiny sydd angen cyfleusterau o'r fath ar sail eu hieuenctid, oedran, gwendid neu anabledd, tlodi neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd,

(g) gwarchod neu ddiogelu'r amgylchedd;

(ng) darparu cyfleusterau iechyd cyhoeddus a gofal plant;

(h) hybu diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau; a

(i) dulliau eraill a all gael eu pennu o bryd i'w gilydd yn amodol ar ganiatâd blaenorol Comisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr."

Gwybodaeth bellach

6. Os oes diddordeb gennych sefydlu elusen i hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig, cysylltwch â'n staff cofrestru ar 0870 333 0123.

Atodiad - Arweiniad ar statws elusennol cyrff sy'n hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig

Sefydliadau adfywiad elusennol

A1. Mae'n rhaid i sefydliad adfywiad elusennol:

- weithio i adfywio ardal (neu ardaloedd) o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd (gweler A15-A17 isod);
- fel rheol, ymgymryd ag **o leiaf 3 neu 4** o'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff 7 uchod, sy'n cwmpasu ystod eang o waith adfywio, wedi'i anelu at ymdrin â phroblemau'r ardal (neu ardaloedd) (gweler A4 isod);
- cael gweithgareddau nad ydynt yn rhoi lefel annerbyniol o uchel o fudd preifat i unigolion neu gwmnïau arbennig (gweler A5-A6 isod);
- cael amcanion yn ei ddogfen lywodraethol sy'n elusennol yn unig yn ôl y gyfraith (gweler A21-A23 isod).

Cyrff rheng flaen a chyrff cydlynu

A2. Gall sefydliadau adfywiad weithredu mewn o leiaf tair ffordd wahanol:

- fel cyrff "rheng flaen", h.y. ymgymryd yn uniongyrchol ag agweddau gwahanol ar brosiect adfywio;
- fel cyrff "cydlynu", h.y. cynnal y prosiect ond contractio asiantaethau eraill (a all gynnwys elusennau) i ymgymryd ag elfennau penodol o'r prosiect;
- fel cyrff sy'n gwneud cyfuniad o'r uchod.

A3. Mae angen i ni wybod ym mha ffordd y bydd sefydliad adfywiad yn gweithredu. Os yw sefydliadau adfywiad yn defnyddio asiantaethau eraill (h.y. yn gweithredu yn gyfan gwbl, neu'n rhannol, fel cyrff cydlynu), mae angen i ni wybod hefyd:

- y meini prawf y byddant yn eu defnyddio er mwyn pennu pa asiantaethau i'w defnyddio;
- a fyddant bob amser yn cadarnhau bod gan yr elusennau sy'n ymgymryd â gwaith ar eu rhan y pŵer angenrheidiol i arwyddo contractau ag ef:
- beth yn union fydd y berthynas rhwng y sefydliad adfywiad a'i asiantau; ac
- a fydd y sefydliad adfywiad yn cael rheolaeth gyffredinol ddigonol dros weithgareddau ei asiantau er mwyn sicrhau bod adfywiad yn cael ei gyflawni.

Hyd a lled gweithgareddau

A4. Fel rheol byddem yn disgwyl i sefydliad adfywiad elusennol (os yw'n gorff cydlynu neu'n gorff rheng flaen neu beidio) ymgymryd ag **o leiaf 3 neu 4** o'r gweithgareddau a restrir ym mharagraff 7 uchod, **a** bod y gweithgareddau hynny yn cwmpasu ystod eang o waith adfywio. Felly, er enghraifft, ni fyddai sefydliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth i bobl ddi-waith yn unig - hyd yn oed os oedd yn gwneud hynny mewn nifer o'r ffyrdd a restrir uchod - wedi'i sefydlu at y diben o adfywio'r ardal dan sylw. Y rheswm am hyn yw bod adfywio ardal yn golygu ymdrin â mwy nag un broblem gymdeithasol arbennig, fel diweithdra. Er hynny gall sefydliad o'r fath fod yn elusennol am resymau eraill - gweler er enghraifft ein harweiniad **Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith (RR3)**.

Budd cyhoeddus a phreifat

A5. Mae'n rhaid i elusen roi budd i'r cyhoedd yn ei gyfanrwydd neu adran ddigonol o'r cyhoedd. Fel rheol byddai'r rhan fwyaf o fuddiannau pendant adfywiad trefol neu wledig yn ymddangos eu bod yn mynd, yn y lle cyntaf, i unigolion a busnesau unigol yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol.

A6. Os yw sefydliad am fod yn elusen mae'n rhaid i'w ddibenion a'i weithgareddau gael eu cyfyngu fel bod unrhyw fuddiannau preifat yn codi **dim ond** fel dull angenrheidiol o gyflawni'r diben elusennol cyffredinol ac yn atodol i hyn. **Ni** fyddai'n dderbyniol i'r buddiannau preifat fod yn ddiben eu hunain. Felly bydd statws y sefydliad yn dibynnu ar ei safle yn y cyswllt hwn. Bydd rhaid pennu hyn ym mhob achos arbennig.[1]

Meini prawf i bennu budd cyhoeddus v preifat

A7. Felly bydd rhaid i sefydliad sy'n gwneud cais i gofrestru ddangos na fydd ei weithgareddau yn creu lefel annerbyniol o fudd preifat.

Er enghraifft, mewn ardal sy'n "ddifreintiedig" oherwydd ei thai gwael a'i chyfradd troseddau uchel, ond ardal sydd â lefel resymol isel o ddiweithdra, bydd gweithgareddau sy'n ceisio lleihau ymhellach lefel diweithdra - fel ailhyfforddiant - yn cael effaith fach yn unig ar leddfu amddifadedd yr ardal. Felly mae'r elfen o fudd "preifat" a ddaw i gyflogwyr yn debygol o fod yn fwy na'r budd cyhoeddus.

---

[1] Cafodd y gwahaniaeth ei egluro yn achos diweddar I**RC v Oldham Training and Enterprise Council (1996) STC 1218**. Un o amcanion TEC Oldham oedd **darparu gwasanaethau cefnogi a chyngor i fusnesau newydd**. Penderfynodd y llys bod yr amcan yn caniatáu i'r sefydliad hyrwyddo buddiannau preifat unigolion pe byddai unrhyw fuddiannau i'r gymuned ehangach yn deillio o hyn neu beidio. Penderfynwyd bod y budd i'r gymuned yn rhy bell o'r gweithgaredd hwn ac nid oedd yr amcan yn elusennol.

Ond yn achos **ViRSA Educational Trust**, penderfynodd y Comisiynwyr y gellid bwrw 'mlaen â chofrestru'r sefydliad. Cafodd y sefydliad ei ffurfio i ymgymryd â gwaith ymchwil ar argaeledd gwasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill mewn pentrefi, **i ddarparu hyfforddiant ac arweiniad i gymunedau gwledig ar sefydlu a chynnal y gwasanaethau hynny ac i hybu masnachau a chrefftau sy'n gysylltiedig â'r economi wledig gyfan**. Roedd y sefydliad yn elusennol oherwydd ei fod yn darparu cymorth i gymunedau gwledig yn gyffredinol. (Byddai sefydliad a oedd yn hyrwyddo siopau pentref arbennig yn rhoi graddfa rhy uchel o fudd preifat i'r perchnogion i fod yn elusennol).

A8. Ar y llaw arall, mewn ardal o ddiweithdra uchel, mae gweithgareddau o'r fath yn debygol o gael effaith sylweddol ar adfywio'r ardal, ac mae'r budd cyhoeddus yn debygol o fod yn fwy nag unrhyw fudd preifat a ddaw i gyflogwyr.

A9. Mae'n rhaid i sefydliadau sy'n gwneud cais i gofrestru ddatblygu eu meini prawf eu hunain ar gyfer mesur y budd cyhoeddus a phreifat sy'n deillio o'u gweithgareddau. Mae meini prawf posib yn cynnwys:

- am ba gyfnod y mae rhywun wedi bod yn ddi-waith a'r gost i'r wladwriaeth yn erbyn yr arian elusennol y gallai'r sefydliad adfywiad ei dalu i gyflogwr gyflogi'r person di-waith;
- nifer y boblogaeth a'i natur wasgaredig;
- newidiadau yng nghyfradd cyfranogiad pobl leol yn nigwyddiadau'r gymuned leol;
- lleihad mewn cyfraddau troseddau;
- lleihad mewn cyfraddau diweithdra;
- y newid yn hyd rhestrau aros ar gyfer cartrefi, a nifer y cartrefi sydd ar werth;
- cynnydd mewn cyfleusterau cyhoeddus.

A10. Gall meini prawf eraill, wrth gwrs, gael eu defnyddio os yw'r ymddiriedolwyr o'r farn eu bod yn fwy priodol. Yn wir, gall ymddiriedolwyr ddefnyddio gwyddonwyr cymdeithasol neu arbenigwyr eraill yn y maes hwn i bennu'r ffordd orau i adnabod a mesur budd cyhoeddus a phreifat.

A11. Cyn cofrestru'r corff bydd angen i ni ystyried a yw'r meini prawf yn rhesymol, a phennu safle'r sefydliad.

Yr effaith ar y gymuned

A12. Agwedd bwysig ar adfywiad yw'r effaith bositif ar y gymuned a ddylai ddeillio o'r gwelliannau i'r amgylchedd economaidd a chymdeithasol o brosiect adfywio. Mae hyn yn berthnasol i, a ddylai gael ei ystyried yn rhan o'r broses o bennu a yw sefydliad adfywiad wedi'i sefydlu er budd cyhoeddus neu breifat. Er enghraifft, mae sefydliad adfywiad sy'n dangos bod ganddo gefnogaeth a chyfranogiad rhan fawr o'r gymuned leol yn llawer mwy tebygol o gael ei sefydlu er budd cyhoeddus nag un sy'n cael ei sefydlu a'i redeg gan grŵp o gynrychiolwyr busnes.

A13. Tri ffactor pellach i'w hystyried wrth asesu safle sefydliad felly yw:

- i ba raddau y mae trigolion a gweithwyr lleol yn cefnogi'r cynigion adfywio ac yn cymryd rhan ynddynt;

- effaith y gweithgareddau ar y gymuned leol; a

- chyfansoddiad y corff ymddiriedolwyr - e.e. annibyniaeth o unrhyw gyrff cyllido, cwmnïau neu fusnesau a fydd yn cael budd mewn unrhyw ffordd o weithgareddau'r sefydliad. (Os oes angen barn, cyngor ac arbenigedd busnesau a'r budd-ddeiliaid ar y sefydliad gall geisio hyn yn anffurfiol, neu drwy is-bwyllgorau neu bwyllgorau ymgynghorol, yn hytrach nag ymddiriedolaeth).

A14. Os bydd gan rai o'r ymddiriedolwyr fudd preifat yng ngweithgareddau'r elusen, mae'n rhaid i'r ddogfen lywodraethol gynnwys darpariaethau i ddelio â datganiad o fuddiannau a sicrhau bod ymddiriedolwyr sy'n fudd-ddeiliaid yn absennol o'r trafodaethau, ac nid ydynt yn pleidleisio ar faterion sy'n effeithio arnynt. Hefyd mae'n rhaid i'r hyrwyddwyr ddangos ei fod er budd yr elusen i gael unigolion o'r fath fel ymddiriedolwyr waeth beth fo'u buddiannau preifat yng ngweithgareddau'r elusen.

Amddifadedd cymdeithasol ac economaidd

A15. Mae'n rhaid i ymddiriedolwyr y sefydliad gael meini prawf i adnabod amddifadedd er mwyn: (a) dangos i ni eu bod nhw wedi adnabod meysydd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd, a (b) er mwyn iddynt allu pennu os a phryd y mae adfywiad ardal arbennig wedi cael ei gwblhau. Mae angen i ni benderfynu cyn cofrestru a yw'r meini prawf yn effeithiol at y diben hwnnw.

A16. Gall meini prawf gwahanol fod yn briodol mewn ardaloedd gwahanol i ymdrin ag agweddau gwahanol ar amddifadedd. Er enghraifft, gallai'r defnydd o faen prawf "lefel troseddau" fod yn briodol mewn ardal ryng-ddinesig, ond yn llai priodol mewn ardal wledig sy'n dioddef yn bennaf o wasanaethau cyhoeddus gwael a diweithdra uchel.

A17. Dylai'r ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol o amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth. Gall y rhain ymgorffori ffactorau a ddefnyddir mewn mynegeion swyddogol, fel Mynegai Amodau Lleol yr Adran Cyflogaeth, Cludiant a'r Rhanbarthau.

Ardal fudd

A18. Mae'n rhaid i'r ardaloedd sydd i'w hadfywio fod yn ddigon mawr i gwmpasu dosbarth budd sy'n ddigon mawr. Fel rheol ni fyddai hyn yn cynnwys sefydliadau a ffurfiwyd i adfywio ffyrdd arbennig.

A19. Fel rheol dylai cymal amcanion yr elusen nodi'r ardal ddaearyddol benodol (lleol, cenedlaethol neu ryngwladol) y bydd yn gweithredu ynddi. Bydd angen i ymddiriedolwyr roi ystyriaeth benodol i hyn yn y ddogfen lywodraethol, geiriad apeliadau a'r ffordd y bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio (gweler hefyd A21 - A23 isod ar hyn).

Dosbarth sy'n cael budd

A20. Efallai bod pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardal amddifadedd arbennig yn perthyn i grŵp hiliol, ethnig, crefyddol neu grŵp arall arbennig yn bennaf, a'r grŵp hwn fydd yn cael y budd mwyaf o weithgareddau'r sefydliad. Mae hyn yn dderbyniol yn nhermau'r gyfraith elusennau **cyhyd â bod** y buddiannau heb eu **cyfyngu** yn ychwanegol i aelodau'r grŵp hwn yn unig. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn "ddosbarth o fewn dosbarth", ac mae'n ddosbarth sy'n cael budd rhy fach i elusennau a sefydlwyd i hyrwyddo adfywiad.

Amcanion

A21. Ni all sefydliad fod yn elusennol os yw ei amcanion yn rhy amwys ac ansicr i'w gweithredu neu eu rheoli gan y llys. Mae "adfywio" yn golygu ailadeiladu neu ailfywiogi ardal (Geiriadur Saesneg Chambers, 7fed Argraffiad), ac mae gan "adfywiad trefol a gwledig" ystyr cyfatebol. Nid yw'r termau hyn yn cynnwys y sicrwydd y mae ei angen mewn amcanion elusennol.

A22. Felly rydym wedi datblygu amcanion enghreifftiol sydd (a) yn ddigon clir a manwl, (b) yn eu gwneud yn glir pa weithgareddau fydd yn cael eu cyflawni, ac (c) yn dangos y bydd y budd cyhoeddus yn fwy nag unrhyw fudd preifat. Nodir y rhain yn A25 isod.

A23. Os yw sefydliad yn hyrwyddo unrhyw rai o'r dibenion yn A25, ond **nid** fel rhan o gynllun adfywio, ni fydd y sefydliad yn elusennol dan "hyrwyddo adfywiad". Yn lle hynny bydd angen i ni ystyried a yw'n elusennol dan ddiben elusennol arall.

Amcanion enghreifftiol

A24. Ni fydd pob un o'r is-gymalau a restrir yn (a) - (i) isod yn briodol i bob sefydliad. Efallai bod rhai sefydliadau yn ymgymryd â gweithgareddau a gwmpaswyd gan, er enghraifft, is-gymalau (a), (b), (d) a (dd). Bwriedir i'r rhestr o is-gymalau fod yn "fwydlen" a dylai'r sefydliadau ddewis y rheiny sy'n berthnasol i'w weithgareddau amrywiol.

A25. Mewn rhai achosion efallai y bydd sefydliad eisiau ymgymryd â gweithgareddau sydd heb eu cynnwys o fewn unrhyw un o'r is-gymalau a awgrymir. Er mwyn bod yn elusen bydd angen is-gymal newydd arno i adlewyrchu hyn, sy'n rhaid cael ei gefnogi gan ddadl gyfreithiol fanwl gan yr hyrwyddwyr.

> **"Hybu er budd cyhoeddus adfywiad trefol neu wledig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd (ac yn arbennig [ardal benodol]) trwy bob un neu unrhyw un o'r dulliau canlynol:**
>
> **(a) rhoi cymorth i'r tlodion:**
>
> Mae hyn yn debygol o fod yn briodol i'r rhan fwyaf, os nad pob elusen adfywiad.

(b) **rhoi cymorth i'r di-waith:**

Seilir hyn ar y penderfyniad yn achos **IRC V Oldham Training and Enterprise Council (1996) STC 1218**. Erbyn hyn derbynnir ei fod yn elusennol i sefydlu pobl ddi-waith mewn masnach neu fusnes. Bydd angen i sefydliadau adfywiad y mae eu gweithgareddau yn cynnwys rhoi cymorth i'r di-waith ddangos: (a) eu bod yn rhoi cymorth i'r di-waith er budd cyhoeddus mewn ffordd sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar adfywio ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd; (b) bod eu gweithgareddau wedi'u cyfeirio at roi budd i'r gymuned neu ran sylweddol o'r gymuned mewn ffordd y gellir ei dangos mewn modd gwrthrychol; ac (c) bydd unrhyw fuddiannau preifat yn atodol yn unig i'r prif ddiben o hyrwyddo adfywiad (*gweler hefyd ein cyhoeddiad* **Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith (RR3)**).

(c) **hybu addysg, hyfforddiant neu ailhyfforddiant, yn enwedig ymhlith pobl ddi-waith, a chynnig profiad gwaith i bobl ddi-waith:**

Ni chyfyngir hyn i gefnogi gwaith prifysgolion, ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Gall gynnwys bod yn brentis a hyfforddiant neu ailhyfforddiant hefyd (yn nhermau dysgu sgiliau newydd a sut i ddod o hyd i waith) ar gyfer pobl ddi-waith (*gweler hefyd ein cyhoeddiad* **Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith (RR3)**).

(ch) **darparu cymorth ariannol, cymorth technegol, cyngor busnes neu wasanaeth ymgynghori er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddi a gwaith i bobl ddi-waith mewn achosion o angen ariannol neu angen elusennol arall trwy roi cymorth: (i) wrth sefydlu eu busnes eu hunain, neu (ii) i fusnesau sy'n bod.**

Mae darparu benthyciadau, grantiau a gwasanaethau i gynorthwyo pobl ddi-waith i ddechrau busnesau neu fasnachau newydd yn elusennol cyn belled ag y bo wedi'i gyfeirio at roi cymorth i'r tlodion **(Verge v Somerville (1924) AC 496 AT 506; a re Tree (1945) Ch 325)**. Mae darparu grantiau a chymorth arall i fusnesau sy'n bod hefyd yn dderbyniol os yw at ddiben creu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i bobl ddi-waith ac mae'r cymorth a ddarperir yn gymesur â'r angen elusennol y mae wedi'i gyfeirio ato (gweler ein cyhoeddiad **Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith (RR3)**). Byddai darparu cyngor i unigolion, sefydliadau gwirfoddol a/neu fusnesau ar sut i gael mynediad i gymorth ariannol, er mwyn darparu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith i bobl ddi-waith at ddibenion adfywiad wedi'i gynnwys o fewn yr is-gymal hwn.

(d) **creu cyfleoedd hyfforddi a gwaith trwy ddarparu lle gwaith, adeiladau, a/neu dir i'w defnyddio ar delerau ffafriol:**

Bwriedir i hyn gwmpasu yn bennaf, ond nid yn unig, darparu tir, adeiladau a/neu le gwaith am lai na rhent y farchnad, ym mhob tebyg i'w ddefnyddio fel parc diwydiannol neu barc busnes.

Bydd angen i'r ymddiriedolwyr esbonio pa feini prawf y byddant yn eu defnyddio i bennu a yw darparu tir ar delerau ffafriol yn briodol mewn achos arbennig neu beidio, felly gallwn fod yn glir bod y sefydliad wedi'i ffurfio er budd cyhoeddus (ac nid budd preifat).

Hefyd bydd angen i'r ymddiriedolwyr ddangos eu bod wedi ystyried telerau'r meddiant er mwyn sicrhau'r budd tymor hir mwyaf i'r elusen. Bydd hyn yn cynnwys:

- pa ddull o ddarparu tir ac adeiladau (prydles neu drwydded) fyddai'n fwyaf addas i ddarparu'r math o gymorth sydd ei angen;
- telerau'r brydles neu'r drwydded sydd i'w rhoi i'r sawl sy'n cael budd;
- a yw'n briodol i denantiaid gael sicrwydd daliadaeth;
- gwahardd trosglwyddo'r brydles;
- darparu ar gyfer ildio'r brydles mewn rhai amgylchiadau (gan gynnwys os nad oes gan y tenant yr hawl mwyach i ddefnyddio'r tir, adeilad neu le fel sawl sy'n cael budd dan delerau'r meini prawf a ddefnyddir gan yr ymddiriedolwyr);
- diogelu budd yr elusen os bydd y tenant yn troi'n fethdalwr;
- darparu ar gyfer cynnydd mewn rhent dros y blynyddoedd mewn perthynas â gallu cynyddol busnes y tenant i dalu mwy, hyd at rent y farchnad.

Byddem yn ystyried unrhyw drefniadau o'r fath fel rhai a roddir i'r rheiny sy'n cael budd o'r elusen, wrth hyrwyddo ei hamcanion, ac felly fe'u cynhwysir gan is-adran 36(9)(c) Deddf Elusennau 1993. Mae hyn yn golygu na fydd rhaid iddynt gael eu hawdurdodi trwy Orchymyn gan y Comisiynwyr.

(dd) **darparu tai i'r rheiny sydd mewn sefyllfa o angen a gwella tai yn y sector cyhoeddus neu mewn perchnogaeth elusennol ar yr amod na fydd pŵer o'r fath yn ymestyn i ryddhau unrhyw awdurdodau lleol neu gyrff eraill o'r ddyletswydd statudol i ddarparu neu wella tai:**

Mae'n anorfod y bydd sefydliad adfywiad elusennol yn gweithio mewn ardal neu ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd. Os yw'r ymddiriedolwyr wedi nodi diffyg tai, neu dai gwael fel ffactor sy'n cyfrannu at amddifadedd yna bydd ymdrin â'r broblem honno yn cynorthwyo angen elusennol (h.y. amddifadedd cymdeithasol ac economaidd). Er mwyn galluogi elusen i wneud hyn bydd angen iddi fynegi amcan sy'n gysylltiedig â darparu tai.

Bydd angen i'r ymddiriedolwyr ddangos: (i) bod yr ardal fudd, yn ei chyfanrwydd, yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd; (ii) eu bod wedi nodi'r rhannau hynny o'r ardal fudd lle mae tai gwael yn broblem sy'n cyfrannu at amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yr ardal; a (iii) bydd darparu tai a/neu wella tai yn y rhannu hynny yn adfywio'r ardal fudd yn gyffredinol.

Rhagwelwn y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau adfywiad sy'n ymgymryd â gweithgareddau dan yr is-gymal hwn yn gweithredu, yn y cyd-destun hwn, fel corff cydlynu. Bydd angen i'r ymddiriedolwyr nodi'r meini prawf y byddant yn eu defnyddio i benderfynu pa dai sector cyhoeddus neu elusennol y byddant yn eu cynorthwyo, y sefydliad a fydd yn ymgymryd â'r gwaith rheng flaen ac ar ba delerau.

Os yw sefydliad adfywiad yn cynnig gweithredu fel corff rheng flaen, yn y cyd-destun hwn, bydd angen iddo ddangos i ni y bydd darparu tai yn gyffredinol yn cynorthwyo'r diben elusennol o adfywio ac ni fydd yn rhoi budd preifat gormodol. Mae'n rhaid i'r telerau meddiant fod yn gymesur â darparu cymorth elusennol.

Unwaith eto, er hynny, ni ddylai'r elusen ryddhau'r awdurdod lleol o'i ddyletswyddau statudol yn yr ardal hon (gweler ein cyhoeddiad **Elusennau a Chontractau (CC37)** paragraffau 20-28).

(e) **cynnal, gwella neu ddarparu amwynderau cyhoeddus:**

Mae hyn yn cynnwys darparu ffyrdd a llwybrau cludiant eraill a chyfleusterau, gwella'r prif gyflenwad dŵr, darparu llyfrgelloedd, amgueddfeydd, neuaddau cyhoeddus, parciau, gerddi, goleuadau stryd gwell a theledu cylch-cyfyng. Gallai hefyd gwmpasu darparu cyflenwadau nwy neu drydan i ardaloedd amddifadedd anghysbell, gyda'r nod o alluogi'r ardaloedd hynny i ddenu buddsoddiad.

Er hynny, bydd rhaid i ni ystyried a yw'r sefydliad yn rhyddhau'r awdurdod lleol o unrhyw rwymedigaethau statudol sydd ganddo yn yr ardaloedd hyn - rhywbeth nad yw'n weithgaredd elusennol (gweler ein cyhoeddiad **Elusennau a Chontractau (CC37)** paragraffau 20-28).

Hefyd bydd angen i ni ystyried a fydd y budd preifat a allai ddeillio yn fwy na'r budd cyhoeddus cyffredinol. Bydd yn rhaid i'r hyrwyddwyr ddangos yn union pwy fydd yn cael budd o'r gwelliannau, ac a ellir ystyried y budd preifat hwn yn fudd atodol.

Er enghraifft, os rhagwelir y bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i lwybrau cludiant, bydd rhaid i ni ystyried a fydd unrhyw fudd preifat yn dod i'r awdurdodau amrywiol - nifer ohonynt yn gyrff preifat erbyn hyn - sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynnal y llwybrau. Bydd rhaid iddynt ddangos y byddai'r budd i'r awdurdod cludiant yn atodol i gyflawni adfywiad yn gyffredinol er budd cyhoeddus.

(f) diogelu adeiladau neu safleoedd o bwysigrwydd hanesyddol neu bensaernïol:

Mae diogelu'r fath adeiladau neu safleoedd yn debygol o wella golwg yr ardal a denu ymwelwyr, gyda'r buddiannau economaidd sy'n gysylltiedig â hyn. Mae'n amlwg bod hyn yn mynd i gyfrannu at adfywiad ardal amddifadedd. Er hynny, os bwriedir defnyddio arian elusennol ar eiddo mewn perchnogaeth breifat neu eiddo gyda phreswylwyr preifat, bydd rhaid i ni ystyried lefel y budd preifat sy'n dod i'r perchennog a phwyso hyn yn erbyn y budd cyhoeddus sy'n codi o fynediad cyhoeddus i'r safle neu'r adeilad.

(ff) darparu cyfleusterau adloniadol i'r cyhoedd neu'r rheiny sydd angen cyfleusterau o'r fath ar sail eu hieuenctid, oedran, gwendid neu anabledd, tlodi neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd:

Bwriedir i hyn gynnwys cyfleusterau a gwmpasir fel rheol gan Deddf Elusennau Adloniadol 1958 (RCA). Gan fod yr amcan enghreifftiol yn ei wneud yn glir y bydd y cyfleusterau'n cael eu darparu ar gyfer y diben elusennol o adfywio ardal o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd er budd cyhoeddus, nid oes angen cynnwys geiriau'r RCA "gyda'r amcan o wella eu hamodau byw", neu'r geiriau "er budd lles cymdeithasol".

Gallai'r pennawd hwn hefyd gwmpasu darparu rhai cyfleusterau/ canolfannau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol neu gelfyddydol. Er hynny, os nad yw'r gweithgareddau diwylliannol neu gelfyddydol yn syrthio'n union o fewn termau'r is-gymal hwn, gallai is-gymal ar wahân fod yn fwy priodol a/neu gellir ei gyfiawnhau yn well.

(g) diogelu'r amgylchedd:

Ni fydd pob adeilad neu safle sydd angen ei ddiogelu neu ei wella wedi'i gynnwys dan is-gymal (f) uchod. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys adfer tir diffaith i'w ddefnyddio fel lle agored fel rhan o raglen adfywio. Fel yn (f) uchod, os bwriedir defnyddio arian elusennol ar eiddo neu safleoedd mewn perchnogaeth breifat neu sydd â phreswylwyr preifat, bydd rhaid i ni ystyried lefel y budd preifat a ddaw i'r perchennog.

Gall gwella yr amgylchedd fod yn berthnasol yng nghyd-destun adfer tir diffaith fel rhan o brosiect adfywio neu trwy adeiladu a gwella tai, neu mewn ffyrdd eraill. Er hynny, mae "gwella" yn syniad gwbl oddrychol. Felly daethom i'r casgliad na fyddai'n briodol iddo gael ei gynnwys yn amcanion elusen adfywiad.

(ng) darparu cyfleusterau iechyd cyhoeddus a gofal plant:

Gall fod angen hyn pan fo'r cyfleusterau yn rhan o'r rhaglen adfywio. Er enghraifft gall darparu cyfleusterau gofal plant gael ei gyfiawnhau lle y dangosir bod hyn yn arwain at gynyddu gallu rhieni na fyddai'n gallu fforddio gweithio fel arall.

Unwaith eto, er hynny, bydd rhaid i'r sefydliad adfywiad ddangos na fydd yn rhyddhau'r wladwriaeth o unrhyw rwymedigaethau sydd ganddi yn y maes hwn.

(h) hybu diogelwch y cyhoedd ac atal troseddau:

Fel rheol byddai hyn wedi'i gynnwys gan is-gymal (e) a dylai darpariaeth benodol gael ei chynnwys dim ond lle mae angen i'r sefydliad adfywiad ymdrin â throsedd a diogelwch fel rhan sylweddol o'i raglen a lle mae manylion am y mesurau sydd i'w cymryd wedi cael eu darparu (e.e. goleuadau stryd digonol, neu osod teledu cylch-cyfyng).

(i) dulliau eraill a all gael eu pennu o bryd i'w gilydd yn amodol ar ganiatâd ysgrifenedig blaenorol y Comisiynwyr Elusennau ar gyfer Lloegr a Chymru.

Cydnabyddwn fod arfer a pholisi ar adfywio trefol a gwledig yn datblygu trwy'r amser. Efallai y bydd hyn yn arwain at fwy o ddibenion elusennol yn cael eu nodi.

3. Materion Eraill i'w Trafod

(a) Statws Elusennol

- Cyn, neu ar adeg cofrestru, dylai'r ymddiriedolwyr gael eu cynghori i ddefnyddio eu meini prawf ar gyfer pennu buddiannau cyhoeddus a phreifat (gweler A7-A11 uchod) fel meincnodau ar gyfer mesur perfformiad yr elusen wrth gyflawni ei hamcan. Dylai eu meini prawf gael eu hadolygu nawr ac yn y man er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol o hyd ar gyfer y diben hwn.

- Ar ôl adfywio ardal arbennig, bydd angen i'r ymddiriedolwyr ddefnyddio arian dros ben yr elusen at naill ai (a) dibenion tebyg mewn ardal amddifadedd arall, neu (b) dibenion elusennol eraill yn yr ardal wreiddiol (yn dibynnu ar delerau'r ddogfen lywodraethol). Dylai'r ddogfen lywodraethol (ac unrhyw apeliadau) nodi felly sut y dylid defnyddio arian dros ben neu arian sydd heb ei ddefnyddio.

(b) Ar ôl cofrestru

- Os yw'r elusen yn berchen ar dir bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried sut y caiff ei drin at ddibenion cyfrifeg, h.y. a fydd yn cael ei drin fel eiddo swyddogaethol neu eiddo buddsoddiad. Efallai na fydd hyn yn glir, er enghraifft, os yw'r eiddo wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y ddau ddiben.

- Mae prydlesu eiddo er mwyn hyrwyddo is-gymalau (d) neu (dd) o'r amcanion enghreifftiol yn syrthio o fewn is-adran 36(9)(c) Deddf Elusennau 1993, gan fod y daliwr prydles yn derbyn budd dan delerau'r ymddiriedolaethau (gweler hefyd A25(d) ac (dd) uchod).

- Wrth i ardal gael ei hadfywio, bydd rhaid i'r elusen dynnu ei gwasanaethau a'i gweithgareddau yn ôl o'r ardal honno. Dylai'r ymddiriedolwyr gadw hyn mewn cof wrth brydlesu'r eiddo, er mwyn sicrhau y gallant adfer yr eiddo neu ei werth o denantiaid nad ydynt yn gymwys mwyach fel y rheiny sy'n cael budd, er mwyn iddo gael ei ddefnyddio o hyd i gyflawni amcanion yr elusen - os yw'r rhain yn amcanion adfywio cynradd, neu amcanion eilradd i'w hyrwyddo pan fydd adfywio wedi'i gwblhau - (gweler hefyd A25(d) ac (dd) uchod).

Rhagor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth efallai y bydd o ddefnydd i chi gyfeirio at gyhoeddiadau canlynol y Comisiwn Elusennau:

RR1 Yr Adolygiad o'r Gofrestr Elusennau

RR3 Elusennau sy'n Rhoi Cymorth i'r Di-waith

RR5 Hybu Adeiladu Gallu'r Gymuned

CC37 Elusennau a Chontractau

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau, casetiau sain a fideo, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw rai o'r cyhoeddiadau uchod gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n safle ar y rhyngrwyd: www.charity-commission.gov.uk;
- ysgrifennu at y Swyddog Dosbarthu yn ein swyddfa yn Taunton; neu
- ffonio 01823 345427 a gadael neges ar y peiriant ateb.

Ein hamcan yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych awgrymiadau ynghylch sut i wella'r llyfryn hwn, ysgrifennwch y Pennaeth Cyhoeddiadau yn ein Swyddfa yn Taunton.

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a'r logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng at ddiben ymchwil, astudio preifat neu gylchrediad mewnol o fewn sefydliad. Mae hyn yn amodol ar atgynhyrchu'r cyhoeddiad yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Gallwch gyrchu'r cyhoeddiad hwn ar wefan yr Adran hefyd ar www.charitycommission.gov.uk. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o'r deunydd hwn, ysgrifennwch at y Llyfrfa, Yr Uned Hawlfraint, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ. Ffacs 01603 723000 neu e-bost: copyright@hmso.gov.uk.

(R 02/05)